

## Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Mehefin 5ed, 2014 yn Neuadd Goffa Chwilog.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr John Williams, (Cadeirydd); Ifor Wyn Davies, (Is Gadeirydd); Margaret Griffith; Aled Lloyd Evans; Trefor Wyn Jones; Thomas Prys Jones; Gwilym M Thomas; Dafydd Williams; Marian Evans; Anwen Jones a'r Clerc.  
1 Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Alwen Evans; Brian W Ifans; William Ifor Hughes; Elis Gwyn Jones a Naomi Jones.

2. Arwyddo Datganiad Derbyn Swydd, yr Is gadeirydd. Arwyddwyd y Datganiad gan y Cynghorydd Ifor Wyn Davies a chan y Clerc.

3. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod arbennig, Mai 27ain, 2014.

4. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

5. Datgan buddiant personol. Neb yn datgan buddiant personol.

6. Cyngor Gwynedd.

1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Phriffyrdd, mis Mehefin, 2014; Llwybr 54 Bontfechan, newid camfeydd am giatiau mochyn ger y rheilffordd. Derbyniwyd.

2. Trafnidiaeth a Gofal Stryd, Archwiliwr Gwaith Strydoedd; Polion Llanybi. Derbyniwyd yr ateb y bod trafodaethau yn mynd ymlaen rhwng Cyngor Gwynedd a B T. i symud y polion i leoedd mwy addas ac y cawn glywed gan Gyngor Gwynedd pan fydd datblygiadau pellach.

3. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd; Ymateb i'r cais adleoli bin baw cŵn ger safle bedd David Lloyd George yn Llanystumdwy ac ymweliad Swyddog Trefi Taclus ag ysgol Llanystumdwy i gasglu syniadau am greu arwyddion ynghylch problem baw ci. Y ddiweddaraf ynghylch hyn yw bod Cyngor Gwynedd yn fodlon symud y bin baw cŵn o'r bont i le mae'r llwybr heibio bedd Lloyd George yn cychwyn, sef bron gyferbyn â phen uchaf rhes tai Maenywern, ar dir y Cyngor Cymuned, os ydi hynny yn dderbyniol gan y Cyngor yma. Penderfynwyd rhoi caniatad i ail leoli'r bin ar dir y Cyngor yma a gofynnwyd i'r bin gael ei wagio yn rheolaidd.

4. Trafnidiaeth a Gofal Stryd, Swyddog Cludiant Cyhoeddus a Chymunedol; newid yn amserlenni bysiau. Derbyniwyd y llythyr yn gobeithio bod pob problem wedi'i goresgyn ond yn gofyn am y wybodaeth os bydd cwynion.

5. Rheolwr Tim Gwelliannau, Traffig Rheolaeth Datblygu (dros dro); arwyddion ar gyfer teithwyr yn ardal Llanarmon. Mae'r Cyngor Sir yn dal yn amharod i osod arwyddion a gofynnwyd am drefnu cyfarfod safle rhwng Cyngor Gwynedd, y Cynghorwyr Dafydd Williams a Gwilym M Thomas.

7. Cyngor Gwynedd – Cais Cynllunio yn y Gymuned:

Cais rhif C14/0460/41/LL – Tynnu amod 4 o ganiatad cynllunio a roddwyd ar apel (Cais 2/21/368'A') er mwyn codi cyfyngiad preswyl; Eryr Wen, Pencaenewydd. Penderfynwyd cefnogi.

8. Un Llais Cymru; cwrs hyfforddiant Gwneud Ceisiadau Grant Effeithiol yn yr Institiwt, Caernarfon, nos Iau Mehefin 19eg, 6.30 – 9.00pm. Roedd y Cynghorydd Aled Lloyd Evans yn awyddus i fynd ar y cwrs yma; y Clerc i wneud y trefniadau a gofyn am ffurflen bwrsari.

9. Manylion cysylltu ar safle we'r Cyngor, cais gan y Cynghorydd Margaret Griffith ac ymateb Cwmni Delwedd. Roedd y Cynghorydd Griffith wedi derbyn neges gan gwmni yn dweud bod 'chwaneg o risg iddi gan bod ei chyfeiriad a'i rhif ffôn ar safle we Cyngor Cymuned Llanystumdwy. Roedd y Clerc wedi trosglwyddo'r wybodaeth ymlaen i gwmni Delwedd ac wedi gofyn am eu hymateb. Yr ateb gafwyd oedd bod manylion llawn pob Cynghorydd Sir ar safle we Cyngor Gwynedd. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth; mae i fyny i bob Cynghorydd unigol os yw eisiau tynnu manylion cyswllt oddi ar safle we Cyngor Cymuned Llanystumdwy ac i adael i'r Clerc wybod.

## **10. Materion yn y gymuned.**

### Rhoslan.

1. Angen tario ym Maes Eifion. Penderfynwyd anfon at Gyngor Gwynedd i ofyn am i'r gwaith gael ei wneud.
2. Loriau yn mynd am Rhydybenllig. Ar ôl trafodaeth sylweddolwyd mai loriau yn mynd am Rydycroesau ddylai hwn fod. Deallir bod loriau mawr iawn yn mynd i gaeth gyfle wrth droi am Rydycroesau wrth geisio canfod y Parc Bwyd. Yn ogystal mae loriau mawr iawn, wrth chwilio am y Parc Bwyd, yn troi lawr yn Groeslon Tyddyn Sianel am bentref Llanystumdwy ac yn methu mynd dros bont y pentref. Y dydd o'r blaen roedd lori fawr iawn wedi gorfod bagio'r holl ffordd o bont y pentref i Groeslon Tyddyn Sianel. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd am arwyddion i ddynodi'r ffordd i'r Parc Bwyd.

### Llanystumdwy

1. Y goeden ar y ffordd gefn i Gricieth ger Bron Eifion yn dal heb gael sylw. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu eto gyda'r Cyngor Sir.
2. Baw ci yng nghyffiniau Tan yr Erw. Penderfynwyd gofyn i'r Clerc roi'r wybodaeth ymlaen i'r Warden Cŵn.
3. Tap yn driplan yn nhoiledau cyhoeddus y merched. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyngor Sir.

11. Materion heb gael ymateb iddynt. Dim materion y mis yma.

!2. Adroddiad o'r Gynhadledd SLCC/Un Llais Cymru yn Llandudno. Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad lawn o'r gynhadledd gan rannu gwybodaeth am weithgareddau'r dydd. Cafwyd cyflwyniadau gan Dr. Helen Paterson, Prif Weithredwr Cyngor Wrecsam ar ddatganoli gwasanaethau; Cwmni Yswiriant Came and Company (oedd yn noddi'r gynhadledd) am oblygiadau yswiriant i gynghorau tref a chymuned; Mr Hugh Thomas, Archwiliwr Cyffredinol Cymru; a Mr Lyn Cadwallader, Un Llais Cymru, am yr her sy'n wynebu cynghorau cymuned a thref yn y dyfodol. Ar ôl cinio roedd pedwar gweithdy; Grym Lles, y bu'r Clerc ynddo; Cyfrannu at Gynhadwyedd; Datganoli Gwasanaethau; a Llywodraethiant ac Atebolrwydd Ariannol, y bu'r Cadeirydd ynddo. I gloi cafwyd ateb yn ôl o'r pedwar gweithdy.

## **Y Cyngor yn gaeedig i'r Cyhoedd ac i'r Wasg.**

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.

